# Cymdeithas Llandaf
# The Llandaff Society

Sefydlwyd 1977




Patron: y Capt Syr Norman Lloyd-Edwards KCVO, CGStJ, RD, LLB, JP (rtd)


**Cylchlythyr Rhif 145** | **HYDREF 2022** | **Cyswllt: info@llandaffcity.co.uk**

**Ar gael yn y Saesneg hefyd**


**2022-3**
**Digwyddiadau i ddod**

Oni nodir yn wahanol, cynhelir cyfarfodydd sesiynol yn
**Y Neuadd Goffa,**
**Maes Parcio'r Stryd Fawr**
**Am 7.00 yr hwyr**
**TÂL MYNEDIAD**
**Aelod £3.00;**
**Ddim yn aelod £4**

Gwener 28ain Hydref
↓
**CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**

Gwener 23ain TACHWEDD
↓
**COFIO'R CADOEDIAD**

Gwener 25 ain TACHWEDD
↓
**Sgwrs gan Jackie Askey**
**"THE FORGET-ME-NOT CHOIR"**
ar gyfer dioddefwyr dementia a'u teuluoedd

Gwener 2 ail RHAGFYR
↓
Cinio Blynyddol
Siaradwraig: Baroness Finlay

December
(i'w drefnu)
↓
Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Sant Mihangel

Ionawr

Dr Chris Turner
**"The Rebecca Riots"**

Chwefror
(i'w drefnu)

Mawrth

Dean Powell
**"Gwlad y Gân"**
**(Land of Song).**

Ebrill
(i'w drefnu)

# CYSEGRU RHEILIAU PAULINE GRAINGER

Ar ddydd Mercher Awst 24ain, yn ystod toriad glawog prin yn nhywydd sych yr haf, daeth tyrfa helaeth ynghyd i gysegru'r rheiliau addurniadol a osodwyd y tu allan i'r Gorlan er cof am gyn is-gadeirydd y Gymdeithas, Pauline Grainger. Cyflwynodd ein Llywydd, Syr Norman Lloyd-Edwards, yr Arweinydd Prosiect, Geoff Barton Greenwood, a ddarllenodd foliant i Pauline cyn gofyn i Diana Lambert, arweinydd ymddeoledig côr merched 'Oriana', ddadorchuddio'r rheiliau, drwy ollwng y Ddraig Goch i'r llawr a datguddio'r plât coffa. Yna canodd 'Oriana' dair cân Duduraidd, gan ddechrau gyda threfniant ar gyfer lleisiau benywaidd o "If you Love Me" gan Thomas Tallis - ffefryn gan Pauline a gynrychiolir yn symbolaidd yn nyluniad y rheiliau.

Roedd penderfyniadau dylunio'r prosiect hwn yn waith tîm o Gymdeithas Llandaf dan arweiniad Geoff Barton-Greenwood, yn cynnwys Ruth Dow, Jackie Askey a'r diweddar John Bethell (y gwelir ei golli). Gwnaed y gwneuthuriad gan Jess Phelps o Gwaith Metel Gardd Llandaf.



Syr Norman Lloyd-Edwads yn cyflwyno'r gweithgareddau ac (isod) Geoffrey yn darllen y moliant.






Brawd Pauline Michael (de) a'r cefnder Robert Lawrence, gyda'r tîm dylunio yn y cefn.





Wrth baratoi ar gyfer y digwyddiad hwn, roedd gwirfoddolwyr y pwyllgor hefyd wedi ail-baentio rheiliau Lisbeth David a'r pyst cyfagos







Mae'r ddwy reilen goffa hyn wedi'u gosod a'u mabwysiadu gan Gyngor Caerdydd.
Maen nhw'n enghraifft dda o waith y Gymdeithas o geisio hybu balchder dinesig yn ein dinas bentref.
Gyda chefnogaeth y Grŵp Ymgynghorol Ardaloedd Cadwraeth, dyn ni'n gwrthsefyll y duedd gynyddol iddyn nhw gael eu defnyddio fel safleoedd hysbysebu achlysurol.

# John Bethell – gwerthfawrogiad



Dyn ni'n drist o golli un o sylfaenwyr Cymdeithas Llandaf, ein cyfaill annwyl a pharchus John Bethell, fu farw Mai 26ain, a welir yn y llun yma gyda Rhian, ei wyres hynaf.

Wedi tyfu i fyny yng Nghasnewydd (a pharhau'n deyrngar i Glwb Pêl-droed Sir Casnewydd drwy gydol ei oes), sefydlodd ef a'i annwyl wraig Margaret gartref yn Vaughan Avenue ym 1964. Yno magon nhw eu teulu, gan fyw eu bywydau gyda'i gilydd, a'u gwreiddiau'n ddwfn yn Llandaf am bron i 60 mlynedd, nes i John, yn drist, orfod byw heb Margaret am dair blynedd olaf ei oes.

Fel y gwyddys, ymgymerodd John gydag anrhydedd â rôl Pensaer i Sir De Morgannwg; gan adael ei ôl o gwmpas ein dinas ar ffurf ysgolion, canolfannau hamdden, gorsafoedd tân, llysoedd barn, Neuadd y Sir – ac yn Llandaf wrth gwrs (yn nyddiau'r Cynghorydd Jack Brooks fel arweinydd y Cyngor), adnewyddiad "gwych" yr Adain Ddwyreiniol yng Nghwrt Insole i letya'r corff Datblygu Cydweithredol a achosodd dipyn o gynnwrf gwleidyddol ar y pryd.

Y disgrifiad mwyaf cyffredin mae pobl wedi'i rannu â ni o John, ydy ei fod yn ŵr bonheddig - yn ystyr gorau'r gair - yn ddyn gwir addfwyn; dyn o fri, ac eto yr oedd ei reddf i osgoi dod yn ganolbwynt sylw.

Roedd John a Margaret yn ymroddedig i'r Gadeirlan, defosiwn aeth ymhell y tu hwnt i'w bywyd addoli personol. Gydag Eric Traherne bu'n gofalu am Archif y Gadeirlan cyn trosglwyddo'r awenau i John Kenyon, y bu'n gwasanaethu gydag ef yn yr 1980au fel Llywodraethwr Sefydledig Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dinas Llandaf, gyda'r Deon Alun Davies yn y Gadair. Mae John Kenyon yn cofio bod "John bob amser yn gwneud sylwadau tawel a hynod berthnasol am bob agwedd o'r ysgol, ac yn enwedig lle'r oedd yr adeiladau yn y cwestiwn pan oedd ailddatblygu ar yr agenda – fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl gan gyn-bensaer sirol". Bu hefyd yn eistedd ar amryw o bwyllgorau adeiladwaith y Gadeirlan fewnol dan gadeiryddiaeth pwy bynnag oedd yn Ddeon ar y pryd; a chafodd clercod olynol ei eiriau doeth o help mawr. Mae'n deg dweud bod llinell hir o glerigwyr – hyd at ein Canghellor presennol Jan a'r Blaenor Canu Mark – wedi cael mynediad at gyngor doethaf John a'i groesawu.

Mae'r gair olaf efallai, yn dod yn agos iawn at ein stori glawr. Parhaodd John i ymwneud yn llwyr â materion Cymdeithas Llandaf hyd at yr olaf – a gellid dibynnu arno bob amser yn ein cyfarfodydd sesiynol i roi pleidlais o ddiolch i siaradwr gwadd, heb gyfyngu ei hun i'r cwrteisi disgwyliedig yn unig ond ychwanegu gras a dyfnder pellach i'n trafodion. Mae ei farc hefyd ar reiliau coffa Pauline Grainger, dyn ni wedi eu cysegru mor ddiweddar y tu allan i'r Gorlan. Fel aelod arbenigol o weithgor Geoffrey, cyfrannodd yn aruthrol hyd at ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth, at esblygiad esthetig y dyluniad.

Collwyd ei bresenoldeb yn fawr yn y seremoni gysegru ar Awst 24ain.

Mae ein meddyliau gyda Sue, Andrew a'u plant, yn eu colled o rieni a neiniau a theidiau gwych; colled dyn ni'n rhannu ynddi, ar ôl colli rhywun (er gwaethaf ei ymroddiad di-ben-draw i Glwb Pêl-droed Sir Casnewydd) y byddwn yn ei gofio cyhyd ag y pery'r cof, fel Llandafiad bendigedig. (JP-M - Gol)

# GOLYGYDDOL - John Prior-Morris Cadeirydd dros-dro

Mae'n briodol, wrth i'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesáu, i roi crynodeb o'r hyn mae eich pwyllgor wedi'i gyflawni a'r hyn nad ydy o wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn.

Dechreuodd y flwyddyn gydag ymddiswyddiad o arweinyddiaeth, ar ôl deunaw mlynedd, Geoff a Jenny Barton-Greenwood, a chael fy ethol yn Gadeirydd dros-dro yn absenoldeb unrhyw ymgeisydd arall. Bu'n gyfnod ansicr i'r Gymdeithas, gyda swyddogion eraill yn teimlo'r angen i gael eu rhyddhau yn fuan o'u dyletswyddau. Fy mwriad datganedig oedd (ac sy'n parhau i fod) i lenwi'r rôl hon ar sail dros-dro'n unig, a'r brif flaenoriaeth oedd dod o hyd i olynydd fyddai'n gallu ein cario ni drwy'r ugeiniau yn well. Teimlwyd hefyd ar y pryd bod angen dod o hyd i olynwyr ar gyfer rolau Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth.

Er na alla i adrodd eto am lwyddiant wrth chwilio am ddeiliad newydd i'r Gadair, galla i adrodd am oedi o ran gweithredu pan ddaw i Swyddi Swyddogion. Mae sefyllfa Jenny fel Ysgrifennydd yn dal heb ei llenwi. Fodd bynnag, mae Alun Morgan wedi ymgymryd ag un o'i rolau blaenorol, sef trefnu siaradwyr ar gyfer y cyfarfodydd sesiynol, tra bydda i'n ymdrin â'r ohebiaeth, a golygu'r cylchlythyr hwn. Rwy'n ddiolchgar i Donna Howard am aros yn ei swydd fel ein trysorydd, ac mae Gaynor ac Alun Morgan yn milwrio ymlaen; Gaynor fel Ysgrifennydd Aelodaeth ac Alun – (cynllunio *pethau Cymraeg* a Sgyrsiau).
Mae eich pwyllgor hefyd yn ffodus i gael budd parhaus o brofiad Geoffrey, fel Is-lywydd gweithgar ac egnïol.


Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran dod â gwaed newydd i waith y pwyllgor.
Dyn ni wedi cyfethol Norma Jarboe, cyn-Gyfarwyddwr Marchnata Caerdydd (Stryd y Bont), y cyfreithiwr sy wedi ymddeol Alun Rees (Heol Caerdydd), a Henry Jones, perchennog newydd ifanc St Cross sy'n wych gyda thechnoleg.
Yn ychwanegol at yr aelodau hyn o'r pwyllgor mae eraill; sef David Smith, Richard Dawson, Ruth Dow, Bee Norris, Sian Griffiths a Blodwen Lewis yn cynnig cymorth gyda phrosiectau nad ydyn nhw'n cynnwys dod yn aelod o bwyllgor.



Alun Rees



Norma Jarboe



Henry Jones


Dyn ni wedi gwneud cynnydd o ran dwyieithrwydd, diolch i Dafydd a Meri Griffiths (Greenwood Road), sy bellach yn darparu gwasanaeth cyfieithu i'w ganmol ac o safon broffesiynol i ni, ac yn ein cadw ar flaenau ein traed yn hyn o beth. Dyn ni'n ddiolchgar iawn iddyn nhw, a gobeithiwn fod ein haelodau Cymraeg eu hiaith yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth hwn allai fel arall fod wedi bod yn anfforddiadwy i'n cymdeithas fechan.

Dyn ni'n parhau i allu gwneud mwy na'r disgwyl wrth graffu ar, a chynnig sylwebaeth ar, yr hyn a arferai gael ei alw'n "gynllunio" ond sy bellach yn defnyddio'r term mwy amddiffynnol "Rheoli Datblygu", sy ynddo'i hun yn arwydd o'r oes. Mae ein dirprwy gadeirydd, Kay Powell, yn arwain ar hyn ac yn dod ag awdurdod ei gyrfa broffesiynol ddisglair yn y maes hwn ar eich rhan. Fe welwch o'i hadroddiad isod y bydd hi'n waith anodd i arall ei dilyn.

Mae'n ddrwg gen i orfod adrodd ein bod, yn anffodus, wedi colli gwasanaethau ein cymerwr cofnodion, Rosemary Scadden, sy wedi gorfod ymddeol ar sail iechyd. Mae diolch Llandaf yn ddyledus i Rosemary am ei gwasanaeth nid yn unig i'r pwyllgor hwn ond hefyd am ei gwaith diflino dros nifer o flynyddoedd yn ymgyrch Cyfeillion Cwrt Insole. Dw i'n ddiolchgar i Sheelagh Lloyd-Jones am wirfoddoli i ymgymryd â'r dasg hon, ac mae'n dod i arfer â'r rôl hon yn raddol.

## "CLONC CYNLLUNIO" - gan ein hymgynghorydd cynllunio, KAY POWELL

Bydda i'n rhoi fy adroddiad trosolwg arferol ar y flwyddyn i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ond yn y cyfamser efallai yr hoffech wybod… Gwnaeth Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru (RB) gais am ganiatâd i ddymchwel y garej ar Court Lane y tu ôl i "St Andrew", un o'r Canoniaethau Rhestredig Gradd 2 ysblennydd sy'n wynebu'r Stryd Fawr, gyda'r bwriad o gael garej gyda phorth newydd ynghyd â mannau parcio a man troi mawr â tharmac yn yr ardd gefn. Fodd bynnag, mae hwn yn lleoliad sensitif iawn, gyda mynediad o Court Lane ochr yn ochr â Phlas yr Esgob, felly cytunodd Pwyllgor y Gymdeithas i wrthwynebu'r cynnig. Fe wnaethon ni awgrymu cynllun llai a llai ymwthiol. Yn galonogol, ymatebodd Corff y Cynrychiolwyr drwy ddiwygio ei gynlluniau yn unol â hynny, ac mae'r rhain bellach wedi'u cymeradwyo. Gobeithiwn y bydd adnewyddiad cynhwysfawr o St Andrew yn dilyn.



Roedd yr enw hanesyddol "Sant Andreas" wedi diflannu beth amser yn ôl, pan adnewyddwyd y giât, a chan nad yw enwau hanesyddol yn cael eu gwarchod gan reolau ardaloedd cadwraeth, dyn ni wedi bod yn ofni y gallai'r enw ddiflannu am byth. Aethon ni at y Corff Cynrychioliadol gyda'n pryder y dylid ei adfer cyn unrhyw werthiant; a chyda'u cytundeb hwy dyn ni wedi cael plât enw derw newydd wedi'i gerfio i gyd-fynd â'i gymydog "St Cross", gan Mr Dave Povey o Glwb Gwaith Coed Caerdydd ac mae bellach wedi'i osod yn hapus ar y giât.

Rydym hefyd yn falch iawn o glywed bod Corff y Cynrychiolwyr nawr am osod cyfamod ar y tŷ i gadw ei enw.




**Grŵp Ymgynghorol Ardal Gadwraeth Llandaf** – sy'n cynnwys unigolion o'r gwahanol gyrff sydd â diddordeb mewn gwarchod a gwella ein tair Ardal Gadwraeth – ydy'r unig un sydd ar ôl yn gweithredu yn y Ddinas. Roedd Swyddog Cadwraeth y Ddinas yn arfer bod yn bresennol ond mae toriadau yn y gyllideb wedi golygu nad yw hynny wedi digwydd ers blynyddoedd lawer. Mae ein grŵp yn cael ei gadeirio gan un o'n Cynghorwyr Ward, gyda Greg Owens yn Ysgrifennydd diwyd iawn. Mae'r Cynghorydd newydd Peter Jenkins wedi cymryd yr awenau fel Cadeirydd oddi wrth Philippa Hill-John, a dyn ni wedi ailddechrau cyfarfod wyneb yn wyneb yng Nghwrt Insole, ar ôl 'cyfarfod' ar-lein am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn sicrhau bod "Llais Llandaf" yn parhau i gael ei glywed gan Gynllunio'r Ddinas! (Kay Powell)
*[Efallai bydd aelodau'n synnu o glywed nad yw'n ymddangos bod unrhyw amddiffyniad i enwau tai traddodiadol neu hanesyddol mewn deddfwriaeth Cadwraeth. Ymddengys nad oes dim yn amddiffyn enwau adeiladau sydd wedi'u hymgorffori mewn cofnodion hanesyddol rhag cael eu newid mewn enw neu iaith ar fympwy perchnogion, boed yn ddiniwed anwybodus, neu'n syml yn ddiofal]. (Gol)*

## TAITH BWS I BROADWAY - Alun Morgan

Ar Orffennaf 28, ar ôl bwlch o dair blynedd, roedd Cymdeithas Llandaf yn ôl ar y ffordd!! Roedd y daith bws y tro hwn i dref fach brydferth Broadway, yn y Cotswolds ac yna ymlaen i Snowshill Manor & Gardens gerllaw. Aeth tri deg un o bobl ar y bws cyfforddus iawn yn brydlon wrth iddi adael y Green am 09:05. Cyrhaeddon ni Broadway ychydig cyn 11:00, gan aros yno am ddwy awr. Rhoddodd hyn ddigon o amser ar gyfer coffi, edrych o gwmpas y siopau anrhegion a hen bethau yn ogystal â mwynhau cinio yn un o'r siopau coffi a bwytai niferus.

### Broadway's High street



Galluogodd y daith fer i Snowshill ni i gael dros ddwy awr i archwilio'r Faenor a'r gerddi, o gartref anghonfensiynol yr ecsentrig Charles Wade, oedd wrth ei fodd yn creu llwyfan i'w fywyd ac i'w gariad at ei ddiddordebau. Cawsom hefyd gyfle i fwynhau lluniaeth a chacen yn yr Ystafelloedd Te.

Roedd y tywydd sych a mwyn yn ddelfrydol ar gyfer gweld golygfeydd a cherdded ar dir Snowshill. Gadawson ni oddi yno am 15:30, gan gyrraedd yn ôl yn Llandaf am 18:00.

Roedd Jesmond, ein gyrrwr, yn fedrus iawn (tydy gyrru bws mawr ar y lonydd cul rhwng Broadway a Snowshill ddim yn hawdd!) a hefyd yn help mawr.

Ymddengys mai'r consensws oedd bod pawb fu ar y daith wedi mwynhau diwrnod allan amrywiol a diddorol.

**Snowshill Manor and Gardens – gyda dim ond un o'r tu mewn ecsentrig niferus**





**Diolch i Alun am drefnu'r daith (Gol)**


## RHAGLEN Sesiynol 2023 - Alun Morgan

Efallai y bydd gan yr aelodau ddiddordeb yn y ffordd mae'r rhaglen sesiynol yn datblygu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Fel bob amser, mae rhai misoedd eisoes wedi'u clustnodi ar gyfer busnes blynyddol neu ddigwyddiadau cymdeithasol hirsefydlog. Dyna'r trip bws haf ym mis Gorffennaf (lleoliad heb ei benderfynu eto), y cyfarfod gyda'r ddau gynghorydd lleol (Medi), y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Hydref) a'r Cinio Nadolig (Rhagfyr). Yn ogystal â'r rhain mae tri siaradwr eisoes wedi cytuno i ddod i siarad â'r gymdeithas. Bydd Dr Chris Turner, yn siarad â ni ym mis Ionawr am Derfysgoedd Rebeca. Ym mis Mawrth, bydd Dean Powell yn rhannu ei arbenigedd gyda ni yn ei sgwrs, *Gwlad y Gân*. Bydd hyn yn tynnu ar gyhoeddiad diweddar Dean, *A Royal Choir for Wales*. Bydd Darlith Lisbeth David ar gyfer 2023 gan or-wyres 3ydd Ardalydd Bute, Marietta Crichton Stuart. Bydd yn siarad am y teulu Bute yn Ne Cymru gan gynnwys ei thaid, a oedd yn AS Caerdydd 1910-15. Bydd hyn yn digwydd ar Ebrill 28ain.
Dw i'n gobeithio bod y wybodaeth uchod eisoes yn ennyn diddordeb. Dw i'n hyderus bydd pob un o'r tair darlith o ansawdd uchel iawn. Fodd bynnag, dw i hefyd yn ymwybodol bod gogwydd hanesyddol cryf i'r rhaglen hyd yn hyn. Dw i'n gobeithio gallu sicrhau mwy o gydbwysedd yn y misoedd nesaf. Dw i'n dymuno pwysleisio fy mod yn croesawu awgrymiadau ar gyfer siaradwyr/pynciau gan yr aelodau, felly peidiwch ag oedi i gysylltu â mi os daw unrhyw un i'r meddwl. Fy nghyfeiriad e-bost ydy: alunmorgan47@gmail.com

# LLANDAF 50+ YN Y GORLAN

**Mae'r Gorlan yn 2, Clos y Gadeirlan, drws nesa i Gastell yr Esgob wedi cael ei hail-bwrpasu a'i hadnewyddu gan Llandaf 50+, i fod yn Ganolfan Weithgareddau i Bobl Hŷn.**

Cynhaliwyd seremoni ffurfiol ym mis Mehefin, pan gafodd ei hagor gan y Noddwr, y Farwnes Finlay o Landaf. Croesawodd gefnogwyr o Gymdeithas Llandaf, Cyngor Caerdydd a sefydliadau lleol eraill.
Esboniodd pensaer Y Gorlan, Carolyn Merrifield, Cadeirydd Llandaf 50+, Yvonne Apsitis, a Sylfaenydd Y Gorlan a gwirfoddolwr, Tim Egan, nod, pwrpas a defnydd yr adeilad ar ei newydd wedd.
Ddeuddydd yn ddiweddarach, agorwyd y drysau ar gyfer y dathliad cyhoeddus mawr. Fodd bynnag, roedd hi'n ddydd Sadwrn pan oedd hi'n bwrw glaw drwy'r dydd, felly dim ond y rhai gwirioneddol ddewr fentrodd i fynd ar y daith, ond cafodd y gwirfoddolwyr i gyd ddiwrnod pleserus iawn gan fod digon o gacen i fynd o gwmpas a ffrindiau da i siarad â nhw. Agorwyd y digwyddiad gan y Cynghorydd Sean Driscoll, a chyflwynwyd y gweithgareddau gan Is-lywydd Cymdeithas Llandaf, Geoffrey Barton-Greenwood. Roedd stondinau i brynu arnyn nhw, Helfa Drysor i grafu pen drosti, a chyfle i wrando ar straeon gan Richard Berry.
Erbyn diwedd y prynhawn, daeth y glaw i ben a chafwyd ymweliad digymell gan ddawnswyr gwerin Cymreig Gŵyl Ifan, oedd yn perfformio o amgylch y groes ganoloesol.



**Baroness Finlay yn agor Y Gorlan**



**Y Cyng Sean Driscoll yn agor y drysau ar gyfer y dathliad cyhoeddus, ac yn cael ei groewasu gan yr arweinydd Geoff Barton-Greenwood**

Cynigiwyd Y Gorlan i Landaf 50+ fel Trosglwyddiad Ased Cymunedol ar brydles 99 mlynedd. Mae wedi cymryd mwy na thair blynedd hir i agor yr adeilad yn llawn a bu llawer o ymgynghoriadau cyhoeddus a llawer o gefnogaeth gymunedol yn ystod y cyfnod hwn. Mae wedi'i ariannu gan: Raglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru; Sylfaenwyr Y Gorlan lleol yn talu £10 y mis; a rhoddion cymunedol. Achoswyd oedi gan y darganfyddiad annisgwyl o Dŷ Neuadd Canoloesol o statws uchel o dan yr adeilad gan Dr Tim Young a thîm o archeolegwyr gwirfoddol, a hefyd gan y penderfyniad i wneud yr adeilad yn ecogyfeillgar ac yn gynaliadwy cyn iddo fod y 'peth i'w wneud'!

Fodd bynnag, oherwydd proffesiynoldeb di-wyro'r pensaer, Carolyn Merrifield o Downs Merrifield Architects, a gwaith caled Mike a Garry (a'r tîm) o A&N Lewis, mae'r adeilad bach segur wedi tyfu i fod yn Ganolfan Pobl Hŷn gyfforddus a chroesawgar. A nawr bod prisiau ynni yn codi i'r entrychion, gellir ystyried ei fod wedi bod yn benderfyniad craff i osod y pwmp gwres ffynhonnell aer, cyfnewidydd gwres, llechi a phaneli solar, tiwb golau, gwresogi dan y llawr a thanc cynaeafu dŵr glaw. Maen nhw i gyd yn cael eu monitro i fesur eu heffeithlonrwydd a'u harbedion.

**Dibenion elusen Llandaf 50+ ydy: helpu i atal unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ymhlith pobl dros 50 oed, a hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli.**

Y gobaith ydy bydd Y Gorlan yn ofod lle gall y rhai sydd â sgiliau neu angerdd am bwnc eu trosglwyddo i eraill yn y gymuned mewn amgylchedd cymdeithasol a chyfeillgar. Ar hyn o bryd, mae grwpiau'n cyfarfod i rannu Tai Chi, Paentio Dyfrlliwiau, Sgyrsiau Wythnosol ac Ymchwil Hanes. Yn ogystal, mae 'Gwirfoddolwyr Ystafell Dreftadaeth', menter newydd lle bydd gwirfoddolwyr hyfforddedig yn helpu ymwelwyr â Llandaf drwy egluro ei hanes, a dweud wrthyn nhw beth sydd ble yn y pentref. Os gwelwch nhw y tu allan i'r Gorlan, galwch draw am sgwrs. Mae'r Gorlan yn fodel arloesol i brofi os gall pobl 'hŷn' ddarparu gweithgareddau i bobl 'hŷn' ac mae'n cael ei arsylwi'n ofalus gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd. Mae'n lle ag egni, eco, addysg ac ymarfer corff; felly mae 'r Gorlan yn wirioneddol yn Ganolfan ar gyfer y dyfodol.
Os hoffech wirfoddoli neu fynychu sesiwn weithgareddau, gallwch lenwi'r ffurflen sydd ar gael gan wirfoddolwyr yn yr Ystafell Dreftadaeth, cysylltwch ag info@llandaf50plus.com, post i: Llandaf 50+, 2 Clos y Gadeirlan, Llandaf, Caerdydd CF5 2ED, neu ollwng nodyn yn y blwch post. Mae mwy o fanylion ar y wefan: www.llandaf50plus.co [Diolch i 50+ am yr adroddiad hwn. Gol]

**ER GWAETHA LLAWER O BETHAU GALLWN FOD YN FALCH OHONYN NHW,**

**DYLAI EIN DINAS-BENTREF EDRYCH GYMAINT GWELL**

## Clywyd ymwelydd diweddar o Ganada yn dweud:

# "Mae'n brydferth ond mae angen rhywfaint o ofal cariadus tyner"

Mae'r Gymdeithas yn dymuno pwyso am welliannau i ofal a chynnal a chadw adeiladwaith hanesyddol ein dinas bentref.

**Dydy sesiynau glanhau arbennig ar gyfer Ymweliadau Brenhinol ac ambell fesur cyfalaf brys ddim yn cymryd lle gwaith cynnal a chadw rheolaidd.**

Er ein bod yn ddiolchgar iawn i'w Fawrhydi am y taclusrwydd dros dro a ddaeth yn sgil ei ymweliad, bu'r dychweliad i normal yn ddramatig. A thra ein bod yn talu teyrnged i'r gwaith a wneir yng nghyffiniau'r Gadeirlan gan y grŵp gwirfoddol dan arweiniad Graham Van-de-Lely , a gwaith y codwyr sbwriel gwirfoddol a recriwtiwyd gan y Cynghorydd Driscoll; (heb sôn am ymdrechion ein pwyllgor ein hunain) mae cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei gyflawni gan y math hwn o waith gwirfoddol. Tynwn sylw neillduol yn y rhifyn hwn, at

- Palas canoloesol yr Esgob
- Campanile y 13eg Ganrif
- y llwybr lawr allt rhyfedd o ddienw o'r Preaching Cross i Gae Arles

## ROEDD PLAS YR ESGOB YN NYDDIAU CYNGOR Y DDINAS YN ARDD PERLYSIAU AROGL-MELYS OFALWYD AMDANI GYDA GOFAL CARIADUS

Heddiw, fodd bynnag, mae ei phlanhigion wedi dirywio, ac mae'r drysau hyn, er nad ydyn nhw'n ganoloesol, yn ddigon hynafol i'w gwerthfawrogi a gofalu amdanyn nhw; ond mae'r gatiau haearn yn rhydu ac yn gwyrdroi. Mae'r giât-wiced bron â chwympo'n ddarnau. Mae graffiti'n cael ei oddef ac mae'r colfachau a'r nwyddau haearn yn cael eu gadael i rydu.


Giât-wiced yn cwympo'n ddarnau.



Graffiti'n cael ei oddef


Giât yn rhydu


Yr ystafell warchod a'r dwnsiwn yn denu rwbel llawn sbwriel

Gall bwleia fod yn ddeniadol i ieir bach yr haf; ond o'i adael i dyfu'n afreolus gall ddinistrio gwaith maen. Ac eto does dim unrhyw frwydr gyson yn cael ei chynnal yn erbyn y gwaith chwalu creigiau ymhlith ein hadeiladau rhestredig a'n waliau terfyn.
Gellir cyfeirio at y ffaith nad ydy o wedi'i 'amserlennu' o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, fel esgus, ond yn syml, edrychwch ar y llun hwn ac amcangyfrifwch pa mor hir y gall fod cyn iddo ddinistrio'r bwa canrifoedd oed hwn.
*(Atebion ar gerdyn post at eich Cynghorwyr os gwelwch yn dda)*




*Cafodd y giât hon ei 'duo' ar gyfer yr ymweliad Brenhinol – dim ond mor uchel ag y gallai'r dyn gyrraedd.

**Tydy fandaliaeth na graffiti ddim yn cael eu gwirio. Mae cyflwr yr adeilad hynafol hwn yn codi cywilydd ar y Ddinas.**

## FELLY GYDA'R CLOCHDY





Chafodd y cytuneb cyfalaf wnaed rai blynyddoedd erioed mo'i groesawu na'i ddilyn gan raglen o waith cynnal a chadw blynyddol, felly mae tyfiant chwyn direolaeth yn ôl o ddifri. Roedd gwerth cosmetig i ail-baentio'r rheiliau gan ein pwyllgor-gwirfoddolwyr yn 2021, ond mae gwaith dinistriol bydleia, mieri, eiddew a sycamorwydden yn parhau i ddinistrio'r strwythur.

Mae hysbysiad ar yr ochr orllewinol yn rhybuddio pobl i fod yn wyliadwrus o waith maen yn cwympo, tra ar yr ochr ddwyreiniol, mae clo clap sy'n atal plant rhag crwydro i'r strwythur dadfeilio wedi'i dynnu!


Yr unig rwystr rhag mynediad (fel sgil-gynnyrch yr esgeulustod hwn) ydy gordyfiant o weiriau rhemp a hyll yn rhwymo mieri ac wrth gwrs y bydleia sy'n gyfeillgar i'r glöyn byw ond yn dryllio cerrig.







Rhwystrir ffotograffwyr rhag tynnu llun y ffrâm poblogaidd yma gan chwyn sycamorwydden.



Mae sycamorwydden arall yn agos at y cwmpas 75mm sy'n amddiffyn Ardal Gadwraeth!


Dylid cofio bod yr adeiledd hynafol hwn ar un adeg yn gartref i 'Pedr Mawr', cloch 5 ½ tunnell a anfonwyd i Gaerwysg ym 1488 ar gais Siasbar Tudur, yn gyfnewid am 5 cloch lai i'w hongian yn yr hyn a ddaeth yn Tŵr "Jasper ". Yn ddiweddarach daeth yn guddiedig o fewn y "Red Lion Inn", a phan dynnwyd y dafarn honno i lawr, adferwyd y clochdy i'w weld a'i gludo i'r Ddinas ym mis Hydref 1924 fel Cofeb Rhyfel a "man agored am byth". Dylid ei barchu fel y cyfryw a'i warchod rhag difrod amser trwy waith cynnal a chadw rheolaidd, nid mesurau brys achlysurol.

## Y LLWYBR I LAWR YR ALLT HEIBIO BLAEN GORLLEWINOL YR EGLWYS GADEIRIOL

Ymddengys bod y ffordd hon (sy'n rhyfedd o ddienw) ddim ond yn denu gwaith cynnal a chadw pan fydd ymweliad Brenhinol ar fin digwydd…. fel dyn ni newydd ei weld – ond edrychwch ar gyflwr y wal gynnal ar y chwith, wrth iddi ddadfeilio'n araf. Oes rhaid i garreg gleisio troed brenhinol cyn cynnal hon?

**"MAE PWYTH MEWN LLAW YN ARBED NAW" YN WIREB DDEFNYDDIOL O HYD. MAE ANGEN CYNNAL A CHADW AR Y WAL HON.**















## Y LLWYBR I LAWR YR ALLT HEIBIO BLAEN DWYREINIOL YR EGLWYS GADEIRIOL (Parhad)

### Wrth droed y bryn mae angen i chi droedio'n wyliadwrus yn y gaeaf



Mewn cyfnod cynharach byddai wedi draenio'n naturiol i nant y felin oedd yn mynd o dan Tŷ Prebendal ar ei llwybr o'r gored i Felin Llandaf. Mae'r nant bellach yn atgof pell, ond nid oes unrhyw drefniadau draenio wedi'u gwneud erioed; ac felly mae'r llwybr troed yn y pen gwaelod yn cael ei foddi'n gyson â dŵr glaw ffo heb unrhyw le i fynd; gan gronni pridd mwdlyd o amgylch y giât mochyn i'r fynwent drawsffont, a gwneud llwybr troed Oak Avenue ar draws Cae Arles yn gors llithrig, yn ddiwerth heb ddefnyddio esgidiau glaw!

Cafodd llwybr Cae Arles rhwng y rhodfa o goed derw ei ailwynebu gan Met Caerdydd ar ôl troi’r ddôl yn gae pêl-droed; ond gan ei fod bellach yn wyneb ceugrwm yn hytrach nag amgrwm, mae dŵr yn aros arno ac mae'n troi'n gors fwdlyd yn y gaeaf, y mae'n rhaid i gerddwyr ei osgoi gan wneud y glaswellt o'i amgylch yn fwdlyd hefyd. Mae angen cwter a draen iawn ar frys i wneud yr ardal hon yn un y gellir ei defnyddio gan gerddwyr sy’n gwisgo esgidiau arferol mewn tywydd gwlyb.

*N/B Bydd y Gymdeithas yn gwrthwynebu unrhyw awgrym y gellid datrys hyn drwy lwybro un o'r “priffyrdd beicio mawr” newydd drwy'r Oak Avenue gyda chymaint o egni ag sy’n bosibl.*

## OES GYDA CHI ATGOFION NEU STRAEON AM INSTITIWT LLANDAF?

Mae Roger Martin yn ymchwilio i’w hanes, ac mae’n gofyn i unrhyw un sydd â gwybodaeth neu atgofion, gan gynnwys straeon, digwyddiadau, personoliaethau neu luniau y maen nhw’n fodlon eu rhannu, gysylltu ag e 07791 149532




## Yr Esgob June yn Cyhoeddi Deon nesaf Llandaf



Mae’r Esgob June wedi cyhoeddi penodiad y Parch Ganon Richard Peers fel Deon nesaf Llandaf. Ar hyn o bryd Richard ydy Is-ddeon Eglwys Gadeiriol Eglwys Crist, Rhydychen. Edrychwn ymlaen at groesawu Richard a'i bartner Jim i Landaf ym mis Tachwedd.

# TŶ ROOKWOOD


## Ysgrifennwyd y canlynol yng nghyhoeddiad Cymdeithas Llandaf "Llandaf" ym 1996



*"Tŷ Rookwood yn y 1880au. Adeiladwyd ym 1866 gan y Cyrnol Syr Edward Stock-Hill 'ger yr hen dŷ haf lle ysgrifennodd Dean Conybeare ei bregethau'. Estynnwyd ef yn 1881 gan John Prichard. Yn gynnar yn 1918 fe'i cymerwyd drosodd fel cartref ymadfer swyddogion, ac ar ôl y rhyfel fe'i prynwyd gan Syr Lawrence Phillips Bart. AS, a'i gyflwyno i'r genedl fel cartref i gyn-filwyr clwyfedig am gyhyd ag yr oedd angen, ac wedi hynny at ddefnydd Prifysgol Cymru."*


## Bellach trefnwyd i gael gwared ar y rhan fwyaf o safle Ysbyty Rookwood gan Fwrdd Iechyd y Brifysgol. Daw hyn â thynged y tŷ Fictoraidd hardd i'n sylw.

Bydd yr aelodau a fynychodd sgwrs Matthew Williams yn ein cyfarfod sesiynol ym mis Mai, yn ymwybodol o bwysigrwydd y tŷ rhestredig hwn, y dadleuir ei fod o lawer mwy o gywirdeb pensaernïol na Chwrt Insole. Roedden ni wedi gobeithio byddai'n bosibl i gynnal sgwrs Matthew yng nghapel y tŷ, ond roedd y graddau y lleihawyd nifer y staff, y seddau, a'r diogelwch yn gwneud hynny'n anymarferol. Yn dilyn hynny gofynnon ni iddo fod yn rhan o raglen "Drysau Agored" mis Medi eleni. Ni wrthodwyd nac ateb y cais hwn mewn pryd i unrhyw beth gael ei wneud, ond dyn ni'n byw mewn gobaith o berswadio'r Awdurdod Iechyd i ganiatáu mynediad i'r Gymdeithas maes o law cyn iddo gael ei drosglwyddo i ddatblygwr.



Mor ddiweddar â 1978, roedd John Hilling yn gallu cyhoeddi'r llun hwn (chwith) o'r Tŷ Haf "Gothig" yn sefyll ar dir Rookwood, heb fynegi unrhyw bryder ynghylch ei ddiogelwch.

Ym 1995, tynnodd papur Cymdeithas Llandaf **Matthew** *"The 18th Century Gothic Summer House"* sylw at ei ddirywiad, ond caniatawyd i waith natur barhau yn ddi-baid, i'r graddau fel bo nesáu ato heddiw (llun de) yn dasg mor aruthrol fyddai wedi wynebu'r Tywysog Swynol yn ceisio achub y Rhiain Gwsg gyda'i gleddyf cadarn!



Credwn ei bod yn ddymunol i achub 'rhiain gwsg' Llandaf; ac hefyd i ganfod defnydd economaidd hyfyw ar gyfer tŷ rhestredig hanesyddol Rookwood fyddai'n caniatáu rhyw fath o fynediad cyhoeddus parhaus.

**Gwahoddir unrhyw un sydd â syniadau neu all roi egni i'r pwnc hwn gysylltu â'r Gymdeithas**

**trwy e-bostio info@llandafcity.co.uk**